Addysg Rhyw a Pherthnasoedd

Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1986, disgwylir i Gyrff Llywodraethol ysgolion ystyried os dylai addysg rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm seciwlar. Os ydynt o'r farn y dylai addysg rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm, mae gofyn iddynt lunio ac adolygu datganiad ysgrifenedig o'u polisi o safbwynt cynnwys a threfniadaeth.

Mae Addysg Rhyw bellach yn rhan anatod o'r Cwricwlwm Gwyddoniaeth ac fe gyflwynir y cysynyiadau a'r eirfa berthnasol yn y Cyfnod Sylfaen. Adeiladir ar y wybodaeth a chynyddir yr eirfa yn ystod blynyddoedd CA2. Mae polisi cynhwysfawr wedi ei baratoi ac mae ar gael i'w weld pe dymunir hynny.

Y mae gan rieni hawl i eithrio eu plant rhag cymeryd rhan mewn gwersi Addysg Rhyw.

Yn yr un modd, mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn ofyn statudol ac rydym yn cyflwyno hyn fel rhan o weithgareddau dosbarth. Mae'r plant yn datblygu sgiliau cymdeithasol niferus –sut i wneud a chadw ffrindiau, sgiliau datrys problemau, rheoli tymer ac adnabod a deall emosiynau a theimladau. Cynigir cyfleoedd i rannu pryderon a pherchir pob cyfrinachedd. Mae'r cynllun Webster-Stratton yn atgyfnerthu ein hamcanion o greu ymagwedd bositif ymysg y disgyblion a'r staff.

Yr Ysgol Sy'n Hybu Iechyd

Mae'r ysgol yn rhan o'r prosiect hwn ac yn gweithio ar y cyd gydag athrawes ymgynghorol sy'n ddolen gyswllt rhwng yr ysgol a'r awdurdod iechyd. Rydym yn cynnal yr amcanion sydd wedi eu gosod o fewn y Cynllun Hybu Iechyd.